**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1370
Ein cyf/Our ref MA/EM/02621/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Hydref 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1370 Achub y ddarpariaeth mân anafiadau dros nos yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni.

Fel y gwyddoch, mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd ar ran ei boblogaeth leol. Rwy'n ymwybodol, fodd bynnag, yn dilyn gwerthusiad diweddar o wasanaethau uned mân anafiadau yn ardal y bwrdd iechyd, fod y bwrdd iechyd wedi nodi anghydbwysedd rhwng oriau agor a'r galw gan gleifion ar draws yr unedau. Er mwyn cydnabod y galw isel gan gleifion dros nos mewn rhai safleoedd (ar gyfartaledd un claf rhwng 1am a 7am yn Ysbyty Nevill Hall), mae'r bwrdd iechyd yn ceisio sicrhau bod yr adnodd staff gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl ac y gall timau clinigol gynnal eu sgiliau.

Dechreuodd y bwrdd iechyd broses ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd ar 11 Medi, a fydd yn rhedeg tan 1 Rhagfyr, a byddwn yn annog pob parti â diddordeb i gymryd rhan yn y broses honno. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

Ymgysylltiad 12 wythnos ar Ddarparu Gwasanaethau Uned Mân Anafiadau - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gig.cymru).

Ni fydd penderfyniad yn cael ei wneud gan y bwrdd iechyd tan ar ôl i'r broses ymgysylltu ffurfiol â'r cyhoedd ddod i ben ym mis Rhagfyr. Pe bai'r cynigion presennol yn cael eu gweithredu, byddai gwasanaethau mân anafiadau yn parhau i gael eu darparu yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni am 18 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos rhwng 7.00am ac 1.00am, ac yn Ysbyty Aneurin Bevan yng Nglynebwy am 10 awr rhwng 9.00am a 7.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd gwasanaethau mân anafiadau yn parhau i gael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ar sail 24 awr, ac mae Ysbyty

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Athrofaol y Faenor yn parhau i ddarparu gwasanaethau adran achosion brys 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfer unrhyw anafiadau neu gyflyrau meddygol mwy sylweddol.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth ichi.

Yn gywir**,**



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services